Y gath a'r crwban

Dysgu Parchu'n Gilydd / Dod yn Ffrindiau / Parchu Bywyd

Roedd hi wedi bod yn ddiwrnod braf, poeth. Roedd Pwsi'r gath wedi bod yn cysgu yn yr haul drwy'r dydd. Pan ddeffrodd pwy ddaeth am dro i'r ardd ond Caleb y crwban.

Doedd Pwsi ddim yn hoff iawn o Caleb ac meddai wrtho. "Hen greadur rhyfedd wyt ti yn cario dy dŷ ar dy gefn."

Atebodd Caleb hi'n ôl. "Mi ydw i wrth fy modd efo'r gragen sydd ar fy nghefn. Pan fydda i ofn mi fydda i'n gallu mynd i mewn i'r gragen. Amser hynny mi fydda i'n teimlo'n saff."

Ond meddai Pwsi wrtho. "Mae gen i ffwr llyfn hyfryd ac mi fedra i redeg a dringo coed; dim ond cerdded fedri di."

Meddai Caleb y crwban, "Dydw i ddim eisiau rhedeg a dringo, mae'n well gen i gerdded yn a..r..a..f a..r..a..f."

Dechreuodd Pwsi alw enwau hyll ar Caleb. Roedd y crwban yn drist iawn. Roedd o bron a chrio. Cerddodd yn a..r..a..f tua'r llwyni i guddio.

Yn sydyn daeth criw o fechgyn a genethod heibio. Roedd pob un ohonyn nhw'n gwneud sŵn mawr. Roedd gan ambell un ohonyn nhw ffon fawr. Dyma nhw'n dechrau rhedeg ar ôl y crwban. Yn sydyn dyma Caleb yn tynnu ei ben a'i goesau i mewn i'w gragen galed. Roedd o'n union fel carreg. Dyma'r plant yn gadael y crwban a dechrau rhedeg ar ôl y gath. Roedd Pwsi wedi dychryn yn arw. Rhedodd nerth ei thraed ac i fyny'r goeden â hi. Dechreuodd y plant daflu cerrig ati. Dyma un garreg yn taro'r gath yn ei phawen. Roedd y plant yn dal i daflu cerrig a brigau at y gath.

Ar ôl iddi ddechrau bwrw aeth y plant adref ond roedd Pwsi druan yn drist iawn. Daeth i lawr o'r goeden yn ara deg. Aeth i'r llwyni i gysgodi rhag y glaw. Bu'n bwrw glaw yn drwm am awr neu ddwy. Ar ôl i'r glaw gilio pwy ddaeth heibio ond Caleb.

"Be sy'n bod?" gofynnodd i Pwsi.

"Mae'r plant wedi bod yn taflu cerrig ac mae un ohonyn nhw

wedi taro fy mhawen ac mae hi'n gwaedu," meddai Pwsi gan ddechrau crio.
Aeth ymlaen gan ddweud ei bod hi'n oer ac yn wlyb. "Fedra i ddim stopio crynu," meddai wrth Caleb. "Mae hi'n iawn arnat ti mae gen ti dy dŷ ar dy gefn. Rwyt ti yn medru mynd i mewn ac allan fel y mynni."
"Mae hynny'n wir ," meddai Caleb. "Tyrd efo mi i weld ffrind i mi," meddai'r crwban. Ac i ffwrdd ar ddau i weld Smotyn y ci. Ci caredig iawn oedd Smotyn. Rhoddodd ddiod poeth i Pwsi a gwnaeth i'r ddau deimlo'n gartrefol iawn.
Soniodd Pwsi fel yr oedd hi wedi bod yn gas efo Caleb ond ei fod yn ffrind da iddi hi yn awr. Edrychodd Smotyn ar Pwsi a Caleb ac meddai wrthyn nhw, "Ryda ni i gyd yn wahanol i'n gilydd, ond mae'n rhaid i ni ddysgu bod yn garedig ac yn gyfeillgar efo pawb. Dydio ddim ots os ydyn nhw'n wahanol mae'n rhaid i ni ddysgu eu caru."
O'r diwrnod hwnnw ymlaen bu Pwsi, Caleb a Smotyn yn ffrindiau mawr efo'i gilydd.

O Dduw, helpa fi i fod yn garedig ac yn ffrind wrth bawb. Amen.

- Fyddwch chi'n gas wrth blant eraill? Pam?
- Fydd plant eraill yn gas wrthych chi? Pam?
- Beth ydi'r ffordd orau i drin plant sy'n gas efo chi?